# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 15 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth leol a Chymunedau

### Gwella Effeithlonrwydd o ran Darparu Gwasanaethau Allweddol

**C8 Ieuan Wyn Jones:** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i wella effeithlonrwydd o ran darparu gwasanaethau allweddol? (OAQ13887) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae awdurdodau lleol yn ymreolus ac yn ymatebol yn ddemocrataidd. Hwy sy'n penderfynu sut i ddarparu eu gwasanaethau eu hunain, ar sail gwybodaeth a blaenoriaethau lleol.

Yr wyf yn awyddus i annog bod y prif wasanaethau'n cael eu darparu yn fwy effeithlon, a byddaf yn gweithio gydag ystod eang o gyfranddeiliaid i greu awyrgylch a fydd yn caniatáu mwy o weithio rhwng awdurdodau os bernir y byddai hynny'n addas a buddiol.

### Canllawiau ynghylch Pleidleisio Drwy'r Post

**C11 Brian Hancock:** Pa ganllawiau y mae'r Cynulliad wedi eu rhoi i awdurdodau lleol ynghylch pleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol? (OAQ13893) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau sy'n gyfrifol am sut y cynhelir etholiadau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

*Tynnwyd cwestiwn 8 (OAQ13923) yn ôl.*

### Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A all y Gweinidog warantu y bydd arian ar gael i gasglu data ar ddangosyddion datblygu cynaliadwy yng Nghymru? (OAQ13924)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Casglwyd data am amryw o'n dangosyddion datblygu cynaliadwy ers amser. Lle bo angen cyllid ychwanegol i gasglu data am y dangosyddion yr ydym wedi'u mabwysiadu—o gydnabod na fydd rhaid casglu pob darn o ddata bob blwyddyn o anghenraid— fe fyddwn yn sicrhau ei fod ar gael. Er enghraifft, byddwn yn ariannu'r asesiad o sut y mae Cymru yn effeithio ar yr amgylchedd. Wrth ystyried mabwysiadu dangosyddion ychwanegol, byddwn yn ystyried costau casglu'r data ychwanegol, gan fwrw na fyddwn yn mabwysiadu dangosydd heb fod yn fodlon ariannu'r costau.

### Mesurau Atal Llifogydd

**C10 David Davies:** A all y Gweinidog ddatgan pa fesurau sydd wedi eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd y difrod a wnaethpwyd gan lifogydd y gaeaf diwethaf yn digwydd eto? (OAQ13913)

**Sue Essex:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau amddiffyn rhag llifogydd yw sicrhau bod trefniadau digonol yn barod. Mae'r Cynulliad wedi darparu £25 miliwn i gynorthwyo'r awdurdodau hyn dros dair blynedd.

### Adroddiad Babtie

**C11 Mick Bates:** Pryd fydd y Gweinidog yn cyhoeddi rhaglen, yn seiliedig ar adroddiad Babtie, i wella'r cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd? (OAQ13964)

**Sue Essex:** Mae rhaglen gefnffyrdd yn cael ei datblygu yn unol ag egwyddorion y fframwaith trafnidiaeth i Gymru a gaiff ei gyhoeddi'r mis hwn. Caiff adroddiad Babtie ar wella'r cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd ei ystyried yn llawn yn y rhaglen honno. Gobeithiaf gyhoeddi'r rhaglen honno cyn diwedd y flwyddyn.

### Disodli Railtrack gan Gorff Di-elw

**C12 Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ynghylch effeithiau disodli Railtrack gan gorff di-elw ar y Cynulliad a'i bwerau? (OAQ13957)

**Sue Essex:** Mae Prif Weinidog Cymru wedi trafod y sefyllfa â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau gan ddisgrifio sut y gallai'r cwmni di-elw a ddaw yn olynydd i Railtrack fod yn debyg i Glas Cymru. Byddwn yn sicrhau yr adlewyrchir buddiannau Cymru os caiff newidiadau deddfwriaethol eu gwneud o ganlyniad i ailstrwythuro'r cyrff rheilffyrdd presennol.

### Camlesi yng Nghymru

**C13 Glyn Davies:** Beth yw strategaeth y Gweinidog er mwyn hyrwyddo'r defnydd a wneir o gamlesi yng Nghymru? (OAQ13918)

**Sue Essex:** Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol ddim grym wedi'i ddatganoli iddo ynglŷn â rheoli neu weithredu camlesi sydd o dan berchnogaeth Dyfrffrydd Prydain. Er hynny, yr wyf yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth ganolog i ddatblygu a defnyddio'r dyfrffyrdd mewndirol fel y'i disgrifir yn ei phapur polisi '*Waterways for Tomorrow*'.

Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori ar nodyn cyngor technegol 18 sy'n annog awdurdodau lleol i gynnwys cynigion i ddatblygu potensial dyfrffyrdd mewndirol yn eu cynlluniau datblygu unedol. Mae'r Cynulliad hefyd yn gweinyddu cynllun grant cyfleusterau cludo nwyddau sy'n cynnig cymhelliant ariannol i annog trosglwyddo cludo nwyddau o'r ffyrdd i ddyfrffyrdd mewndirol. Cynigir grantiau hyd at 50 y cant o'r costau cyfalaf a gymeradwywyd i gydnabod y lles amgylcheddol a wneir drwy drosglwyddo traffig loriau trwm o'r ffyrdd.

Yn unol â'r addewid yn '*Waterways for Tomorrow*', mae'r canllawiau cynllunio ffyrdd a phontydd wedi'u diwygio'n ddiweddar i sicrhau bod effeithiau cynlluniau ffyrdd ar brosiectau adfer dyfrffyrdd yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a bod croesfannau addas yn cael eu darparu.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ13919) yn ôl.*

### Nodyn Cyngor Technegol 8

**C15 Mick Bates:** Pryd fydd y nodyn cyngor technegol 8 diwygiedig yn barod? (OAQ13963)

**Sue Essex:** Disgrifiais gefndir adolygiad 'Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy' yn fy ateb i OAQ9259 ar 1 Chwefror 2001. Mae cynnydd da wedi'i wneud gan y grŵp sy'n rhoi cyngor technolegol, ac mae drafft cyntaf yn cael ei baratoi i'r grŵp hwnnw ei ystyried. Yr wyf yn disgwyl y caiff nodyn cyngor technegol diwygiedig ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori yng ngwanwyn 2002.

Ar yr un pryd, mae 'Polisi Cynllunio Cymru' wedi'i ailddrafftio i gynnwys sawl pwnc a drafodwyd eisoes gan y grŵp cynghori technegol ac i adlewyrchu'r ymatebion i'r broses ymgynghori a gynhaliwyd eleni. Disgwyliaf y caiff 'Polisi Cynllunio Cymru' ei gyhoeddi fis Mawrth 2002.